Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc

**yng**

**Nghyngor Sir Penfro**
**Neuadd y Sir**
**Hwlffordd**
**SA611TP**

**Mehefin 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

**Rhagorol**
**Da**
**Digonol**
**Anfoddhaol**

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**



**© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

# Cyd-destun

## Cyd-destun

Penrhyn ym mhen eithaf de orllewin Cymru yw Sir Benfro, ac mae'n rhannu ffiniau tir â Cheredigion a Sir Gaerfyrddin. Hon yw'r bumed sir fwyaf yng Nghymru, yn ymestyn dros ryw 1,650 cilomedr sgwâr. Mae'n wledig ei chymeriad yn bennaf, a thrwch poblogaeth y sir yw 72 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Mae ychydig llai na hanner cyfanswm y boblogaeth o 117,400 yn byw yn y chwe phrif dref, sef Abergwaun, Hwlffordd, Aberdaugleddau, Penfro, Doc Penfro a Dinbych-y-pysgod.

Ym mis Ionawr 2011, roedd cyfanswm poblogaeth y disgyblion bron yn 17,940 cyfwerth ag amser llawn. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal 70 o ysgolion, yn cynnwys 61 o ysgolion cynradd, 8 ysgol uwchradd, un ysgol arbennig ac un uned cyfeirio disgyblion.

Mae poblogaeth lleiafrifoedd ethnig gymharol fach gan Sir Benfro o'i chymharu â gweddill Cymru. Ym mis Ionawr 2011, roedd poblogaeth yr ysgol yn cynnwys 928 o ddisgyblion wedi'u cofnodi fel lleiafrifoedd ethnig ac 115 wedi'u cofnodi fel Sipsiwn-Teithwyr.

Yn 2010, 65.9% oedd y gyfradd gyflogaeth yn Sir Benfro. Hon oedd y nawfed isaf o blith 22 o'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Y cyflogau wythnosol cyfartalog yn Sir Benfro yw'r uchaf yng Nghymru. O'r boblogaeth oed gweithio yn 2010, nid oedd unrhyw gymwysterau gan 13.8%, ac mae hynny uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 12.1%.

Canran y disgyblion oed ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 17%, a dyma'r wythfed isaf yng Nghymru. Mae Sir Benfro yn sir gymharol ffyniannus ond mae pocedi o amddifadedd ynddi, yn enwedig yn ardal Doc Penfro. Yn ôl Cyfrifiad 2001, mae ychydig dros bumed (21.5%) o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Mae rhan fwyaf y siaradwyr Cymraeg yn byw yng ngogledd y sir, ac mae'r boblogaeth yn ne'r sir yn siaradwyr Saesneg yn bennaf.

## Cyd-destun Ariannol

Roedd Asesiad o Wariant Safonol Llywodraeth Cymru fesul pen o'r boblogaeth yn Sir Benfro ar gyfer 2010-2011 ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru. Gosododd y cyngor ei gyllideb gyffredinol ar 94.7% o'r Asesiad o Wariant Safonol, sef y gymhareb isaf yng Nghymru. Mewn cyferbyniad, gosododd y cyngor y gyllideb addysg ar lefel o 98.8% o'i ddyraniad cyllideb ddangosol, ac mae hynny'n agos at gyfartaledd Cymru. Dylid nodi nad targed gwariant yw'r dyraniad cyllideb ddangosol, ond yn hytrach mecanwaith ar gyfer pennu cymorth Llywodraeth Cymru i awdurdodau unigol. Y gyllideb addysg net fesul disgybl oedd £4,942 o gymharu â chyfartaledd o £4,800 ar gyfer Cymru gyfan. Y gyllideb a ddirprwywyd i ysgolion cynradd (£4,027 y disgybl) oedd y pedwerydd uchaf yng Nghymru, a'r gyllideb i ysgolion uwchradd (£4,426 y disgybl) oedd y pumed uchaf.

## Crynodeb

**Barn gyffredinol: Anfoddhaol**

Mae gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol i blant a phobl ifanc yn anfoddhaol oherwydd:

- nid yw polisïau a systemau'r awdurdod lleol ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc yn addas i'r diben;
- bod yr awdurdod wedi bodloni neu ragori ar 7 yn unig o 12 o ddisgwyliadau meincnod Llywodraeth Cymru ar gyfer y 4 blynedd diwethaf;
- nid yw dysgwyr yn gyffredinol yn perfformio ar lefelau disgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 4; a
- digonol yn unig yw'r cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac maent wedi dirywio dros y 4 blynedd diwethaf.

Fodd bynnag:

- mae dysgwyr yn cyflawni safonau da yn gyffredinol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, ac felly hefyd dysgwyr 17 oed sy'n sefyll arholiadau allanol;
- mae'r cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a'r ddarpariaeth ar gyfer mynediad a lleoedd ysgol yn dda; ac
- yn gyffredinol, mae cyfraddau gwahardd disgyblion o ysgolion yn isel, ac mae systemau da ar waith ar gyfer ymgynghori â dysgwyr.

**Gallu i wella: Anfoddhaol**

Mae rhagolygon gwella'r awdurdod lleol yn anfoddhaol oherwydd:

- bu methiant corfforaethol systemig i ymateb yn ddigonol i faterion diogelu;
- nid yw ansawdd y wybodaeth y bydd swyddogion yn ei rhannu gydag aelod etholedig yn eu galluogi i herio perfformiad gwasanaethau ac ysgolion yn ddigonol;
- nid yw rheoli perfformiad yn y gorffennol wedi bod yn ddigon effeithiol i sicrhau gwelliannau yn erbyn rhai dangosyddion allweddol; a
- gwerth digonol am arian sy'n cael ei gynnig.

Fodd bynnag:

- mae'r awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniadau anodd i leihau lleoedd dros ben yn ei ysgolion. Ers yr arolygiad diwethaf yn 2008, mae wedi cau chwech o ysgolion cynradd ac wedi agor dwy ysgol gynradd gymunedol, ac mae wedi buddsoddi £13.5 miliwn mewn ysgolion newydd ac ar adnewyddu ysgolion; ac
- mae'r awdurdod wedi ymateb yn dda i'r rhan fwyaf o'r argymhellion o adroddiadau Estyn yn 2008 ar wasanaethau addysg a chymorth ieuenctid.

# Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i Gyngor Sir Penfro:

A1 gynnal arfarniad cynhwysfawr a thrylwyr o'r holl waith diogelu yn yr adran addysg ac yn ei ysgolion, gan gynnwys cymryd camau brys i unioni diffygion mewn llywodraethu a rheoli diogelu, ynghyd â swyddogaethau cysylltiedig mewn adran adnoddau dynol;

A2 codi safonau mewn ysgolion, yn enwedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 4;

A3 cynyddu cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2011-2012;

A4 gwella gwaith y pwyllgor goruchwylio a chraffu trwy:

- ddarpariaeth gwybodaeth lawn, berthnasol a thryloyw gan swyddogion er mwyn rhoi gwybodaeth i aelodau etholedig; a
- hyfforddiant ar gyfer aelodau etholedig er mwyn sicrhau y gallant fod yn fwy effeithiol yn herio perfformiad gwasanaethau'r awdurdod a'i ysgolion, a'i drefniadau diogelu er mwyn dwyn swyddogion i gyfrif.

A5 gwella cywirdeb a thrylwyrder arfarniadau'r awdurdod ei hun o ba mor dda y mae'r cyngor a'i bartneriaid yn perfformio, mewn perthynas â'r modd y mae gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth yn effeithio ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr; a

A6 gwella'r gwasanaethau 'mynediad i gyfryngu' ar gyfer rhieni a gofalwyr.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Cyngor Sir Penfro yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn o fewn 70 diwrnod (50 o diwrnod gwaith) o dderbyn yr adroddiad. Bydd cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn cael ei fonitro gan Estyn.

Mae Estyn o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr awdurdod, a hynny'n benodol yn sgil diffygion ym meysydd pwysig diogelu ac mewn methiannau cysylltiedig mewn diwylliant a systemau corfforaethol. Bydd yn ofynnol ailarolygu'r awdurdod. Bydd dyddiad a ffocws yr ailarolygiad yn cael eu pennu gan Estyn maes o law.

Bydd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant (PAEM) yn hysbysu'r Gweinidog Addysg a Sgiliau fod angen gwelliant sylweddol ar yr awdurdod.

Yn ystod pob arolygiad craidd, mae'r tîm arolygu yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar yr awdurdod lleol.

Mae pum math o weithgarwch dilynol, sef:

1. astudiaeth achos arfer dda;
2. monitro gan yr arolygydd cyswllt;
3. ymweliad monitro gan Estyn;
4. gwelliant sylweddol; a
5. mesurau arbennig.

Bydd unrhyw waith arolygu dilynol yn cael ei gynllunio i ystyried gweithgarwch arolygu a rheoleiddio arall o fewn awdurdod. Bydd yr holl arolygiadau dilynol yn cael eu bwydo i Galendr Rheoleiddio Awdurdodau Lleol i osgoi dyblygu a manteisio ar unrhyw gyfleoedd i weithio’n agosach gyda Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? Digonol

**Safonau: Digonol**

Ers 2008, mae perfformiad yn ysgolion Sir Benfro wedi gwella ar gyfradd gyflymach na chyfradd Cymru yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Fodd bynnag, nid yw perfformiad yng nghyfnod allweddol 1 ac ar y rhan fwyaf o'r dangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella ar yr un gyfradd.

Yn 2010, fe wnaeth perfformiad mewn arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4 yn ysgolion uwchradd Sir Benfro ddirywio o gymharu â chyfartaledd Cymru ac o gymharu ag awdurdodau eraill ledled Cymru. Dim ond y sgôr bwyntiau ehangach gyfartalog oedd uwchlaw sgôr gyfartalog Cymru.

O gymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru, a chan ddefnyddio'r meincnodau prydau ysgol am ddim, mae perfformiad gystal â'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 1 ac uwchlaw'r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4 bu gormod o ysgolion yn y 25% isaf dros y tair blynedd diwethaf, a dim digon o ysgolion yn y 25% uchaf. Yn 2010, nid oedd unrhyw ysgolion yn y chwarter uchaf ar gyfer tri o'r pum prif ddangosydd.

Mae tuedd am i lawr yn erbyn meincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad ar sail yr hawl i gael prydau ysgol am ddim. Yn 2007, fe wnaeth Sir Benfro fodloni pob un o'r meincnodau hyn, bodlonodd dau ohonynt yn 2008, ond yn 2009 a 2010 dim ond un o'r meincnodau a fodlonwyd ganddo.

Mae perfformiad disgyblion 17 oed wedi gwella er 2008 ac roedd uwchlaw cyfartaledd Cymru ac yn well na'r lefelau disgwyliedig, gan ystyried canrannau prydau ysgol am ddim yn 2010.

Yn 2010, fe wnaeth canran y dysgwyr sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig wella, ac mae'n well na chyfartaledd Cymru. Hefyd, mae canran y dysgwyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn well na'r cyfartaled ledled Cymru. Fodd bynnag, dirywio wnaeth y ganran sy'n aros mewn addysg amser llawn yn 2010, ac nid yw'n cymharu'n ddigon da ag awdurdodau eraill yng Nghymru.

Yng nghyfnodau allweddol 1, 2 a 3 mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched yn debyg i gyfartaledd Cymru, neu'n llai na'r cyfartaledd. Fodd bynnag, mae'r bwlch yn cynyddu yng nghyfnod allweddol 4. Y rheswm am hyn yw'r ffaith nad yw perfformiad bechgyn yn cymharu gystal â pherfformiad bechgyn yn genedlaethol, o gymharu â pherfformiad merched.

Yn gyffredinol mae grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyrraedd eu lefelau disgwyliedig. Mae plant sipsiwn-teithwyr yn gwella'u medrau llythrennedd ac mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd da iawn i mewn i waith.

Gwna'r dysgwyr gynnydd digonol o ran dysgu medrau mewn Cymraeg mamiaith ac ail iaith. At ei gilydd, mae'r safonau maent yn eu cyflawni yn y ddau bwnc yn gyffredinol dda.

Mae pobl ifanc yn cyflawni nifer uchel o achrediadau ar draws ystod dda o gyfleoedd ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol a gaiff eu cynnig gan Wasanaethau Cymorth Ieuenctid Sir Benfro.

**Lles: Digonol**

Mae safonau lles yn ddigonol yn gyffredinol. Mae gan yr awdurdod ystod foddhaol o fentrau a strategaethau ar waith sy'n annog dysgwyr i gyfranogi mewn dysgu a'i fwynhau.

Yn gyffredinol, mae presenoldeb disgyblion wedi dirywio yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd dros y pedair blynedd diwethaf. Nid yw cyfraddau presenoldeb yn Sir Benfro yn cymharu'n dda â'i ffigur prydau ysgol am ddim ac ag awdurdodau eraill ledled Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr o grwpiau sy'n agored i niwed yn mynychu'n gymharol dda.

At ei gilydd, mae cyfraddau gwaharddiadau yn isel. Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol dros y pedair blynedd diwethaf, ac mae nifer y diwrnodau a gollwyd i waharddiadau o chwe diwrnod neu fwy ymhell islaw cyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae'r gyfradd gwaharddiadau sy'n para pum niwrnod neu lai wedi cynyddu, ac nid yw'n cymharu'n dda ag awdurdodau eraill. Mae nifer y diwrnodau a gollwyd i waharddiadau yn gyffredinol islaw cyfartaledd Cymru.

Mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a byw'n iach. Maent wedi dylanwadu ar ddarpariaeth bwydlenni ysgolion drwy ymgynghori da a thrwy gyfranogi mewn cynghorau ieuenctid. Mae ychydig o ddysgwyr mewn clybiau y tu allan i oriau yn dysgu sut i baratoi bwyd iach. Fodd bynnag, nid oes strategaeth glir wedi'i datblygu eto i fesur newidiadau mewn dewisiadau ac ymddygiad dietegol dysgwyr. Mae dysgwyr yn cyfranogi'n dda mewn gweithgareddau corfforol, ac maent yn deall pa mor dda mae hyn yn eu helpu i ddatblygu'u lefelau ffitrwydd.

Gall dysgwyr fanteisio ar wasanaethau cynghori yn hawdd. Mae'r rheiny sy'n gwneud hynny yn elwa o'r cymorth a gânt ac mae hyn yn arwain at welliant yn eu presenoldeb yn yr ysgol ynghyd â'u perfformiad, eu hymddygiad a'u lles emosiynol.

Mae'r awdurdod yn ymgynghori'n dda â dysgwyr, er enghraifft, drwy gynadleddau a chyfarfodydd. Maent wedi'u cynnwys yn dda wrth wneud Cynlluniau Addysg Unigol yn haws eu defnyddio ac wrth ddatblygu strategaeth iaith Gymraeg yr awdurdod lleol. Caiff dysgwyr o grwpiau sy'n agored i niwed ystyriaeth dda gan yr awdurdod mewn prosesau ymgynghori.

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? Digonol

### Cymorth ar gyfer Gwella Ysgolion: Digonol

Mae cynlluniau a threfniadau priodol ar waith i gynnig cymorth, her ac ymyrraeth mewn ysgolion. Pennir meini prawf clir gan yr awdurdod yn y Cytundeb Partneriaeth, ac mae gan y rhan fwyaf o ysgolion ddealltwriaeth dda o ba gymorth y dylent ei gael.

Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod wedi mynd i'r afael â thanberfformiad yn ddigon da mewn rhyw hanner o'r ysgolion uwchradd. Nid yw'r awdurdod wedi nodi digon o ysgolion sy'n achosi pryder. Fodd bynnag, ers yr arolygiad diwethaf mae mwy o eglurder erbyn hyn ynghylch y modd y mae'r awdurdod yn dyrannu cymorth i ysgolion yn ôl angen a thrwy ddadansoddi data'n fwy systematig. Mae'r awdurdod wedi rhoi pwyslais arbennig ar gynorthwyo ysgolion a chyrff llywodraethol i ddadansoddi data perfformiad yn fwy trylwyr.

Cynhelir rhaglen briodol o adolygiadau ysgol targedig gan swyddogion yr awdurdod. Mae ffocws clir yn yr adolygiadau hyn ar ddarpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r swyddogion yn rhoi adborth ysgrifenedig defnyddiol i ysgolion sy'n nodi meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid yw barnau am ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhoi digon o ystyriaeth bob tro i'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Mae'r awdurdod yn cefnogi ystod o fentrau defnyddiol sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn mynd ati'n ddigon da i arfarnu effaith y mentrau hyn ar ddeilliannau. Mae mentrau effeithiol ar waith i wella medrau sylfaenol disgyblion, yn enwedig eu llythrennedd swyddogaethol. Rhoddir cymorth da i weithredu'r Cyfnod Sylfaen.

Mae gan yr awdurdod gyfleuster rhwydweithio da ar-lein, o'r enw Porth Penfro, ar gyfer rhannu gwybodaeth, darparu ystod eang o adnoddau dysgu a hyrwyddo arfer dda.

Darperir cyfleoedd hyfforddi da gan yr awdurdod i arweinwyr mewn ysgolion ac ar gyfer cyrff llywodraethol. Mae presenoldeb cynrychiolydd y Cyfarwyddwr Addysg ym mhob cyfarfod o gyrff llywodraethol yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau bod llywodraethwyr yn cael gwybodaeth dda am flaenoriaethau allweddol yr awdurdod.

### Cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol: Da

Mae Strategaeth Cynhwysiad Sir Benfro yn hyrwyddo gweledigaeth gynorthwyol i bob dysgwr. Caiff y weledigaeth hon ei gweithredu gan y gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol trwy ddarparu gwybodaeth, arweiniad a chymorth o ansawdd da.

Gwna'r gwasanaeth ddefnydd effeithiol o brosesau nodi, sgrinio ac asesu'n gynnar. Mae'n olrhain cynnydd ac yn targedu adnoddau'n briodol.

Mewn partneriaeth ag ysgolion, mae'r gwasanaeth wedi gwella dyrannu adnoddau, hyfforddiant a hunanadolygu'n dda. O ganlyniad, mae lleoliadau y tu allan i'r sir a datganiadau o anghenion addysgol arbennig wedi'u lleihau'n sylweddol. Mae'r

gweithio hwn mewn partneriaeth wedi bod yn effeithiol iawn o ran adeiladu gallu ysgolion i ddiwallu anghenion ychwanegol dysgwyr yn fewnol.

Mae'r gwasanaeth yn darparu ystod eang o hyfforddiant o ansawdd uchel i ysgolion. Bydd yr athrawon arbenigol yn mynd ati'n gyson i arfarnu'r defnydd a wneir o hyfforddiant ac maent yn monitro'r effaith ar ddeilliannau dysgwyr yn effeithiol. Enghraifft o hyn yw'r hyfforddiant dyslecsia, sydd wedi cyfrannu at welliant yng nghyrhaeddiad y dysgwyr dan sylw. Mae cysylltiadau effeithiol rhwng ymgynghorwyr datblygu ysgolion a staff arbenigol yr awdurdod lleol. Mae hyn yn galluogi dull cwbl integredig o fonitro a chynorthwyo ysgolion, ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu ac addysgu. Gwelliant yng ngallu ysgolion i ganolbwyntio'r addysgu fel ei fod yn diwallu anghenion y dysgwyr hyn yn well fu'r effaith fwyaf.

Yn gyffredinol, mae gwaith aml-asiantaeth i gefnogi'r disgyblion hyn yn effeithiol. Yn benodol, mae'r gweithio mewn partneriaeth â'r tîm therapi iaith a lleferydd yn arfer sy'n arwain y sector. Darperir ystod ragorol o gymorth targedig i ysgolion, dysgwyr a rhieni, ac mae hyn yn cyfrannu at ddeilliannau gwell i ddysgwyr.

At ei gilydd, mae'r awdurdod lleol yn darparu cymorth effeithiol i rieni disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mae anawsterau o ran gallu defnyddio gwasanaethau cyfryngu. O ganlyniad, nid yw nifer fach o rieni'n cael y lefel cymorth sydd ei hangen arnynt.

**Hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles: Anfoddhaol**

**Addysg**

Mae strategaeth a chynllun gweithredu clir gan yr awdurdod ar gyfer lles sy'n llywio cynllunio gwasanaethau'n dda. Mae arweinwyr wrthi'n adolygu strwythur y gwasanaethau cynhwysiant er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth ymhellach.

Mae dull y 'tîm o amgylch y plentyn' wedi galluogi dysgwyr i gael cymorth yn effeithiol ac mae wedi gwella'r cyfathrebu rhwng gwasanaethau cymorth.

Mae'r awdurdod yn monitro ac yn mynd ar drywydd ei ychydig ddigwyddiadau hiliol yn effeithiol. Er bod polisïau gwrth-fwlio gan ysgolion, nid yw'r awdurdod yn casglu gwybodaeth am ddigwyddiadau o fwlio neu hiliaeth er mwyn dadansoddi effaith y polisïau hyn.

Mae'r awdurdod yn gofalu'n dda am grwpiau sy'n agored i niwed. Mae plant sy'n derbyn gofal yn cael cymorth unigol da. Mae'r gwasanaeth Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) a ailstrwythurwyd yn ddiweddar yn helpu athrawon i ddatblygu strategaethau defnyddiol i gefnogi dysgwyr.

Yn ddiweddar, cyflwynodd yr awdurdod amrywiaeth o fentrau i wella cyfraddau presenoldeb disgyblion. Mae'r gwasanaeth cymorth disgyblion yn cynnwys nyrsys ysgol yn dda i gryfhau ei her i ddehongliad ysgolion o absenoldeb meddygol. Mae'r awdurdod wedi cyflwyno system gofrestru electronig i ysgolion cynradd er mwyn gwella coladu data presenoldeb. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y mentrau hyn o ran nodi patrymau diffyg presenoldeb fel y gall staff ddefnyddio'r wybodaeth i fynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol.

Mae’r gwasanaeth cymorth ymddygiad yn hwyluso defnyddio ystod eang o strategaethau, gan gynnwys grwpiau anogaeth a gweithgareddau galwedigaethol, er mwyn helpu dysgwyr i wella’u hymddygiad ac osgoi cael eu gwahardd.  Mae’r gwasanaeth yn gweithio’n dda gyda thimau troseddau ieuenctid lleol, ac mae hyn wedi helpu lleihau cyfraddau troseddu.

Mae’r bartneriaeth plant a phobl ifanc (PPPhI) yn ymgysylltu’n dda ag ystod eang o bartneriaid, ac mae hyn wedi galluogi dysgwyr i ennill cymwysterau neu unedau achrededig mewn ystod eang o leoliadau anffurfiol a lleoliadau heb fod yn ffurfiol.

Mae’r awdurdod yn mynd ati’n dda i olrhain a chynorthwyo dysgwyr nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.  Mae wedi ymgysylltu’n effeithiol â phartneriaid allweddol er mwyn gwella ystod y cyfleoedd dilyniant priodol sydd ar gael i’r rhai sy’n gadael addysg.

**Diogelu**

Mae rhai polisïau a gweithdrefnau diogelu boddhaol ar waith gan yr awdurdod lleol, ond ni chaiff y rhain eu cymhwyso’n gyson ar draws ei wasanaethau addysg.  Nid yw rhai polisïau a gweithdrefnau’n adlewyrchu Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan.

Drwy’r Bwrdd Lleol Diogelu Plant, mae’r awdurdod lleol wedi cyflwyno hyfforddiant Haen 1 lefel ymwybyddiaeth sylfaenol mewn diogelu i ryw 4,700 o bobl er 2008. Cafodd yr hyfforddiant ymateb cadarnhaol iawn gan y rhai a hyfforddwyd, ond nid yw ei effaith wedi’i harfarnu gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant a rheolwyr.

Fodd bynnag, er gwaetha’r hyfforddiant hwn, nid oes gan yr awdurdod lleol systemau sy’n addas i’r diben ar gyfer recriwtio’n ddiogel, ac ar gyfer asesu risg gweithgareddau ac unigolion a allai greu bygythiad i blant a phobl ifanc.  Oherwydd hyn, barnwyd bod yr agwedd hon ar waith gwasanaeth addysg Sir Benfro yn anfoddhaol.

Nid yw’r awdurdod lleol yn gwneud digon i sicrhau bod y Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn cael gwybodaeth dda am y materion diogelu yn Sir Benfro.  O ganlyniad, nid yw’r Bwrdd yn gallu dal partneriaid i gyfrif yn effeithiol.  Mae arweinwyr y Bwrdd Lleol Diogelu Plant wedi cydnabod hyn yn eu hunanasesiad.  Fodd bynnag, nid ydynt hwythau yn eu tro wedi gwneud digon i herio’r awdurdod lleol ynglŷn â hyn.

Mae’r agwedd hon ar yr arolygiad wedi arwain at ymchwiliadau pellach dan arweiniad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac yn cynnwys arolygwyr o Estyn ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi.  Bydd adroddiadau ar yr ymchwiliadau hyn yn cael eu cyhoeddi maes o law.

**Mynediad a lleoedd ysgol:  Da**

Mae gan yr awdurdod hanes da o lwyddo i leihau lleoedd dros ben yn ei ysgolion.  Ar hyn o bryd, gan yr awdurdod y mae’r ganran isaf o leoedd dros ben ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru, a’r chweched ganran isaf ar gyfer ysgolion uwchradd.  Mae wedi ad-drefnu ei ysgolion cynradd yn llwyddiannus.  Ers  yr arolygiad diwethaf yn 2008, mae wedi cau chwech o ysgolion cynradd, wedi agor dwy ysgol gynradd

gymunedol, ac mae wedi buddsoddi £13.5 miliwn mewn ysgolion newydd ac ar adnewyddu ysgolion.

Mae Sir Benfro yn buddsoddi'n dda yn ei hysgolion. Mae yn y chwarter uchaf ar gyfer awdurdodau Cymru am y swm sy'n cael ei wario fesul disgybl ar wella adeiladau ysgol. Hefyd, gwnaed buddsoddiad sylweddol mewn ysgolion uwchradd, ac mae adnewyddu pellach ar y gweill.

Mae'r berthynas weithio agos rhwng ffederasiwn ysgolion y gogledd a'r coleg addysg bellach yn cael cymorth da gan drefniadau llywodraethu ffurfiol. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau mynediad i ddysgwyr i ystod eang o gyrsiau.

Mae gan yr awdurdod fethodoleg effeithiol ar gyfer rhagweld niferoedd disgyblion. Mae staff wedi ymateb yn dda i'r argymhelliad ynglŷn â hyn yn adroddiad arolygu diwethaf Estyn. Mae'r tîm derbyniadau wedi gweithio'n dda gydag uned polisi'r awdurdod i wella'r dull rhagweld. Yn gyffredinol, mae'r rhagfynegiadau o niferoedd disgyblion yn gywir bellach ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Mae'r awdurdod yn rheoli derbyniadau'n dda, ac mae swyddogion yn delio'n gyflym â'r ychydig o apeliadau.

Mae gwybodaeth dda gan dîm y blynyddoedd cynnar am y capasiti a'r galw am ofal plant yn Sir Benfro. Mae'n defnyddio hyfforddiant yn briodol i ddatblygu darpariaeth ychwanegol yn ogystal â gweithio'n effeithiol gydag ystod o asiantaethau i fodloni'r galw lle mae ei angen.

Mae gan Sir Benfro ystod gynhwysfawr o wasanaethau cymorth ieuenctid. Cydlynir y rhain yn dda gan y bartneriaeth plant a phobl ifanc (PPPhI). Gall pobl ifanc fanteisio'n dda ar eu hawliau. Mae nifer fawr o sefydliadau yn cyflwyno gwasanaethau'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn Gymraeg. Ers yr arolygiad diwethaf mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg hon wedi mwy na dyblu o ran maint.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? Anfoddhaol**

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae aelodau etholedig wedi bod yn barod i wneud penderfyniadau anodd ynglŷn â chau ysgolion er lles ehangach plant a phobl ifanc yn gyffredinol. Nid ydynt, fodd bynnag, wedi mynd i'r afael â materion diogelu mewn modd digon systematig a thrylwyr.

Mae uwch swyddogion mewn addysg yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, ac mae ganddynt berthynas dda gydag ysgolion. Mae'r ethos corfforaethol, sef 'ffocws ar gwsmeriaid', 'gwerth am arian' ac 'un tîm' yn hanfodol i'r ffordd maent yn gweithio. Fodd bynnag, mae llawer o drafodaethau a phenderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud mewn cyfarfodydd anffurfiol nad oes cofnodion wedi'u gwneud ohonynt bob tro.

Mae'r wybodaeth a rennir gydag aelodau etholedig, gan gynnwys y cabinet a'r pwyllgor goruchwylio a chraffu, wedi cael ei 'rheoli' yn rhy aml gan swyddogion,

gydag agweddau mwy heriol yn cael eu hepgor o adroddiadau a gyhoeddir. Mae hyn yn creu risg sylweddol i dryloywder cyfathrebu a chadernid y broses gwneud penderfyniadau. Mae wedi tanseilio gallu aelodau etholedig i herio a dwyn swyddogion i gyfrif.

Nid yw swyddogion yn rhannu gwybodaeth yn llawn gydag aelodau etholedig fel rhan o'r drefn. Mae hyn yn tanseilio gallu aelodau etholedig i herio perfformiad gwasanaethau a chyflawni dyletswyddau diogelu. Er enghraifft, dros y blynyddoedd diwethaf, nid yw swyddogion addysg wedi darparu ystod ddigon eang o wybodaeth i aelodau etholedig ac uwch aelodau staff am berfformiad disgyblion. O ganlyniad, nid yw ysgolion a'r gwasanaeth gwella ysgolion wedi cael eu herio'n gadarn ynghylch deilliannau a thueddiadau mewn perfformiad.

Dim ond pum gwaith y flwyddyn y bydd y Pwyllgor Goruchwylio a Chraffu Plant a Theuluoedd yn cyfarfod, a dim ond yn achlysurol y mae wedi penodi is-grŵp i fynd i'r afael â mater penodol. Nid yw hyn yn rhoi digon o amser i'r pwyllgor fod yn rhagweithiol yn herio perfformiad ysgolion.

Mae strwythur priodol i'r adran addysg i allu cefnogi ffocws deuol ar wella ysgolion a gweithio mewn partneriaeth. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant wedi'i rhannu rhwng dau bennaeth gwasanaeth. Mae'r dull hwn yn gweithio'n effeithiol yn sgil cyfathrebu da a gweithio da mewn tîm rhwng y penaethiaid gwasanaeth.

Mae gweledigaeth strategol briodol gan yr awdurdod ar gyfer addysg, ac mae gan aelodau, ysgolion a phartneriaid ddealltwriaeth dda ohoni. Mae cysylltiadau clir rhwng y cynlluniau strategol allweddol. Mae'r Cynllun Gwella Blynyddol a'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn cysylltu'n dda â'r Strategaeth Gymunedol. Adlewyrchir blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn briodol ym mhob un ohonynt. Mae cynlluniau gwella gwasanaeth yn cynnig cyswllt effeithiol rhwng cynlluniau corfforaethol a'r cynlluniau gweithredu gwasanaethau angenrheidiol. Maent yn cynnwys adolygiad trylwyr o berfformiad y flwyddyn flaenorol a chamau gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Er y caiff cynlluniau gwella gwasanaeth eu cynhyrchu gan bob pennaeth gwasanaeth, a'u bod yn destun herio cadarn gan Fwrdd Rheoli'r Prif Swyddogion, ni chaiff y rhain eu rhannu gydag aelodau etholedig fel rhan o'r drefn.

Bu methiant corfforaethol systemig i ymateb i faterion diogelu. Bu methiannau mewn perthynas â recriwtio, mewn rheoli risg ac mewn perthynas â'r modd y deliwyd ag achosion penodol. Oherwydd hyn, mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth ar ddyletswyddau diogelu'r awdurdod lleol, fel y'u cyflawnir gan y gwasanaeth addysg, yn anfoddhaol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae trefniadau hunanarfarnu cynhwysfawr gan yr awdurdod ar gyfer addysg. Mae'n ymgorffori'r rhain yn dda yn y rhan fwyaf o feysydd ac yn cynnwys staff ar bob lefel. Mae hyn yn gymorth i staff 'berchenogi' prosesau newid a datblygu. Rhoddir ystyriaeth dda i farnau dysgwyr gan yr awdurdod, gan gynnwys ym meysydd addysgu a dysgu. Gwneir defnydd da o dystiolaeth uniongyrchol. Fodd bynnag, mae hunanarfarnu'n dibynnu gormod ar farnau a wnaed mewn adroddiadau arolygu blaenorol.

Mewn llawer o feysydd, mae'r awdurdod yn nodi'r gywir ble mae angen iddo wella. Nid yw adroddiad hunanarfarnu'r awdurdod, fodd bynnag, yn adnabod yn ddigon da yr holl feysydd y mae'n tanberfformio ynddynt, yn enwedig yn y ffordd mae'n rheoli'i ddyletswyddau diogelu mewn addysg ac yn ei farn ar safonau, sy'n rhy uchel.

Gwneir gwaith defnyddiol a pharhaus i ddatblygu mesurau deilliannau cyffredin ac i rannu data ar draws ystod eang o asiantaethau. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o staff yn llunio barnau clir ar effaith gwasanaethau ar ddysgwyr neu ddeilliannau.

Mae'r awdurdod wedi mynd i'r afael yn briodol â'r rhan fwyaf o'r argymhellion o adroddiad arolygu Estyn yn 2008 ar wasanaethau addysg a chymorth ieuenctid. Fodd bynnag, nid yw'r argymhellion i sicrhau her fwy cyson a phriodol i ysgolion ac i wella hunanasesu wedi bod yn ddigon effeithiol i godi safonau.

Mae cynlluniau gwella'r awdurdod yn ddigonol. Nid yw rheoli perfformiad yn y gorffennol wedi bod yn ddigon effeithiol i sicrhau gwelliannau mewn rhai dangosyddion allweddol, fel y tanberfformio yng nghyfnod allweddol 4. Yn ddiweddar, penodwyd uwch dîm rheoli addysg newydd gan yr awdurdod. Maent wedi canolbwyntio sylw'n briodol ar feysydd lle mae perfformiad yn rhy araf yn gwella, neu'n dirywio.

Gan weithio o fewn y fframwaith rhanbarthol newydd, mae'r awdurdod wedi nodi cyfres o gamau i wella gwasanaethau. Mae'r camau wedi'u blaenoriaethu'n briodol, ac yn cynnwys mesurau llwyddiant addas. Maent yn cynnwys ffocws manwl ar wella'r defnydd o ddata perfformiad ac ar wella deilliannau. Mae'n rhy gynnar eto, fodd bynnag, i adrodd ar effeithiau'r mentrau hyn ar godi safonau.

Mae datblygu cymunedau dysgu proffesiynol yn ei ddyddiau cynnar, ac mae pob ysgol yn cynnal dadansoddiad o ddata er mwyn nodi blaenoriaethau. Mae rhai cymunedau dysgu proffesiynol eisoes wedi nodi effeithiau ar wella safonau llythrennedd ac addysgu. Mae'r awdurdod yn ymroddedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus, ar sail anghenion sefydliadol a'r angen i ddylanwadu ar godi safonau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Yn gyffredinol, mae cynlluniau partneriaeth strategol yn gweithio'n dda yn Sir Benfro.

Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (PPPhI) wedi datblygu trefniadau da i weithio ar y cyd. Mae'r gweithio mewn partneriaeth yn cynnig cymorth ychwanegol da i bobl ifanc a'u teuluoedd, yn enwedig y dysgwyr hynny y mae perygl iddynt danberfformio yn yr ysgol neu goleg, neu i ymddieithrio oddi wrth addysg. Mae wedi cynyddu'r ystod o gyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer pobl ifanc hyd at 25 oed.

Mae adroddiadau perfformiad y PPPhI yn mapio cynnydd yn glir yn erbyn camau ac yn nodi lle gall cynnydd fod yn araf. Fodd bynnag, nid yw adroddiadau cynnydd yn canolbwyntio digon ar yr effaith ar gyrhaeddiad addysg ffurfiol na'r gwahaniaeth y mae gweithio mewn partneriaeth yn ei wneud er mwyn targedu cymorth yn fwy effeithiol. Mae hyn yn dechrau newid wrth i'r PPPhI wneud mwy o ddefnydd o adroddiadau'n seiliedig ar ddeilliannau.

Mae'r bartneriaeth 14-19 wedi ehangu'r ystod o gyfleoedd dysgu da sydd ar gael i ddisgyblion drwy ei darpariaeth ysgolion ffederal ac addysg bellach. Lle bo'n briodol, mae'r bartneriaeth wedi dileu cyrsiau sy'n perfformio'n wael o'r dewis cwricwlwm. Ceir cyflawniadau da ar gyfer dysgwyr ôl-16 ar draws darpariaeth y bartneriaeth 14-19.

Er bod gweledigaethau hirdymor gwahanol gan y coleg a'r awdurdod lleol ar gyfer trefnu addysg ôl-16, mae'r ddau barti'n cynnal perthynas weithio effeithiol ar y cyd i gyflwyno'r trefniadau cytûn ar gyfer dewisiadau cyrsiau. Fodd bynnag, araf yw cynnydd trafodaethau i gytuno ar ffordd gyffredin ymlaen ar gyfer cyfeiriad hir dymor dysgu ôl-16 yn y dyfodol.

Mae'r awdurdod lleol yn ymgysylltu'n dda ag awdurdodau lleol cyfagos, darparwyr addysg a hyfforddiant eraill a chyflogwyr, i ddatblygu cyfleoedd dysgu a gwella ansawdd. Drwy eu hymglymiad yng Nghonsortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru, mae'r awdurdod lleol yn cyfranogi'n llawn yn y system ranbarthol newydd ar gyfer gwella ysgolion, sydd wedi ei helpu i wella'i wasanaeth gwella ysgolion drwy ddefnyddio meini prawf meincnodi cyffredin. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn gweithio'n dda â darparwyr addysg a hyfforddiant eraill, a chyflogwyr, drwy Rhwydwaith Dysgu Sir Benfro (sy'n datblygu dysgu gydol oes yn yr ardal) er mwyn cynyddu cyfleoedd dysgu a chymorth unigol i ddysgwyr o dan 25 oed.

Nid yw'r awdurdod lleol yn gwneud digon i sicrhau bod y Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn wybodus ynglŷn â'r materion diogelu yn Sir Benfro. O ganlyniad, nid yw'r Bwrdd yn gallu dal partneriaid i gyfrif yn effeithiol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r cyngor wedi rhoi blaenoriaeth uchel i ddarparu cyllid hael i ysgolion.
O ganlyniad, y cyllidebau ysgol dirprwyedig yw'r trydydd uchaf yng Nghymru, er mai gan Sir Benfro y mae'r gyfradd treth gyngor Band D isaf yng Nghymru. Mae'r cyngor yn gwario ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru ar gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cyfran uchel o'r cyllid yn cael ei dirprwyo i ysgolion, gan arwain at ddeilliannau gwell ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dros nifer o flynyddoedd mae'r cyngor wedi buddsoddi'n drwm yn adeiladau ei ysgolion. Mae hyn wedi helpu hwyluso rhesymoli nifer o ysgolion, sydd wedi arwain at leihau lleoedd dros ben ac at lai o arian yn cael ei wastraffu yn cynnal a chadw adeiladau diangen.

Mae rheolaeth ariannol yn ddigonol, ac mae'r adran addysg yn gyson yn cyfyngu pwysau gwariant o fewn ei chyllideb flynyddol gyffredinol. Mae dyhead cryf i gynnig gwerth am arian ac i gymharu perfformiad ariannol yn erbyn awdurdodau eraill.
O ganlyniad, mae adolygiadau diweddar o wasanaeth yn yr adran arlwyo a thrafnidiaeth ysgol wedi nodi arbedion sydd wedi helpu'r adran i gyflawni'i thargedau lleihau costau gan effeithio cyn lleied â phosibl ar ei gwasanaethau llinell flaen.

Mae'r cyngor yn darparu gwasanaethau cymorth digonol i ysgolion. Mae ysgolion cynradd yn arbennig yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth cymorth yn ymwneud â rheolaeth ariannol. Mae'n cynnwys meincnodi ariannol sy'n helpu ysgolion i nodi meysydd posibl lle ceir aneffeithlonrwydd.

Nid oedd diffyg arian sylweddol gan unrhyw un o'r ysgolion ym mis Mawrth 2011. Fodd bynnag, roedd gwargedau cyfartalog ysgolion uwchlaw cyfartaledd Cymru, gan amddifadu disgyblion presennol o'r adnoddau a ddarperir er budd iddynt. Mae'r cyngor wedi gweithredu'n briodol i leihau gwargedau. Mae'n mynnu bod yr ysgolion hynny sydd â'r gwargedau uchaf yn nodi sut bydd gwargedau'n cael eu gwario, neu i esbonio'r rheswm am eu dwyn ymlaen. Hefyd, mae'r cyngor wedi tynnu cymorth ariannol ychwanegol yn ôl oddi wrth ychydig o ysgolion sydd â gwargedau uchel.

Mae gwerth am arian cyffredinol gwasanaethau addysg yn ddigonol.

## Atodiad

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Farrukh Khan AEM | Arolygydd Cofnodol (Estyn) |
| John Thomas AEM | Arolygydd Tîm (Estyn) |
| Gerard Kerslake AEM | Arolygydd Tîm (Estyn) |
| Stephen Lamb AEM | Arolygydd Tîm (Estyn) |
| Alun Connick AEM | Arolygydd Tîm (Estyn) |
| Rachel Bubalo AEM | Arolygydd Tîm (Estyn) |
| Ian Mackinder | Arolygydd (Swyddfa Archwilio Cymru) |
| Katy Young | Arolygydd (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) |
| Cheryl Beach | Arolygydd (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) |
| Jill Lawrence | Arolygydd Cymheiriaid (ALI Caerffili) |
| Martin Lloyd | Enwebai |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)